| | |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft<br>Llythyr Ymgynghori DAB25<br>Ymateb gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | National Assembly for Wales<br>Draft Autism (Wales) Bill<br>Consultation Letter DAB25<br>Evidence from Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |

Croesawa UCAC y cyfle pellach hwn i ymateb i ymgynghoriad Paul Davies AC ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o fewn y system addysg.

## Ai'r "cyrff perthnasol" yn adran 7 y Bil drafft yw'r cyrff priodol i weithredu'r strategaeth awtistiaeth?

Tybiwn y bydd llawer mwy o gyrff nag awdurdodau lleol a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn unig yn cael eu heffeithio gan ofynion y Strategaeth Awtistiaeth arfaethedig a'r rheoliadau a chanllawiau sy'n cyd - fynd â hi; er enghraifft, ym myd addysg, lleoliadau gofal plant, ysgolion nas cynhelir, Colegau Addysg Bellach a phrifysgolion.

Fodd bynnag, efallai mai priodol yw enwi awdurdodau lleol a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel y cyrff a fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu'r Strategaeth.

## A ddylid atgyfnerthu'r ddyletswydd ar gyrff perthnasol i ystyried y strategaeth awtistiaeth a'r canllawiau perthynol trwy roi pŵer cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru dros gyrff perthnasol?

Barn UCAC yw y byddai'n werth ystyried rhoi pŵer o'r fath, er mwyn gallu sicrhau c ydymffurfiaeth petai wir angen.

## A ydych yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol cynnwys rhestr yn y Bil drafft o weithwyr proffesiynol a allai ffurfio tîm amlddisgyblaethol ar gyfer gwneud asesiadau diagnostig?

## Os felly, a oes disgyblaethau eraill y dylid eu rhestru fel aelodau posibl o dîm amlddisgyblaethol o'r fath?

Awgrymwn y gallai fod yn ddoethach rhestru'r gweithwyr proffesiynol mewn rheoliadau er mwyn cadw hyblygrwydd i addasu'r rhestr. Ymhellach, cynigiwn y gallai fod yn briodol cynnwys rhywun o fyd addysg yn achos plentyn neu berson ifanc.

## A oes unrhyw ffactorau eraill neu amgylchiadau unigol a allai rwystro mynediad at wasanaethau ac y dylid eu nodi yn y Bil?

Mae angen bod yn ymwybodol o'r anawsterau o ran cael gwasanaethau a darpariaeth arbenigol, gan gynnwys asesiadau diagnostig, trwy gyfrwng y

Gymraeg. Pwyswn arnoch i sicrhau yng ngeiriad y Bil nad yw gofynion/anghenion iaith Gymraeg yn gallu rhwystro mynediad at wasanaethau.

### A ddylai'r Bil drafft nodi'r mathau o ddata sydd i'w casglu gan Weinidogion Cymru i'w galluogi I gyflawni swyddogaethau o dan y Bil?

### Os felly, a oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y mathau o ddata y dylid eu casglu? Gallai enghreifftiau o fathau o ddata y gellid eu casglu gynnwys: oedran, oedran adeg diagnosis, rhywedd, ardal bwrdd Iechyd/awdurdod lleol, amser rhwng asesiad a diagnosis, proffesiwn(proffesiynau) y staff sy'n cynnal y diagnosis a'u gwasanaeth, y dull(iau) asesu diagnostig a ddefnyddiwyd, y defnydd o asesiadau wedi'u sgorio, amcangyfrif y clinigydd sy'n cynnal y diagnosis o lefel deallusrwydd2, datblygiad o ran gallu cyfathrebu, a gynhaliwyd profion ar gyfer ffenylcetonwria (PKU).

### A ddylid nodi'r mathau o ddata ar wyneb y Bil neu mewn canllawiau?

Unwaith eto, awgrymwn efallai mai mewn rheoliadau y dylid rhoi'r lefel hyn o fanylder , a hynny er mwyn i)sicrhau lefel uwch o hyblygrwydd dros amser.

Awgrymwn y dylid casglu data ynghylch anghenion/gofynion ieithyddol y personau dan sylw mewn perthynas â'r Gymraeg, ac unrhyw ddata perthnasol ynghylch effaith yr anghenion/gofynion hynny ar ddarpariaeth gwasanaethau, er enghraifft, a ddarparwyd yn y Gymraeg yn unol â'r terfynau amser sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth a/neu mewn canllawiau, neu a fu oedi neu anawsterau?

### Gan roi rhesymau dros eich ateb, a allai unrhyw un o'r cynigion yn y Bil drafft gael ei ddiwygio er mwyn cynyddu ei effeithiau cadarnhaol neu leihau ei effeithiau andwyol posibl, mewn perthynas â:

### a. ieithoedd swyddogol y Cynulliad (Cymraeg a Saesneg);

Nid yw'r Bil drafft ar hyn o bryd yn gwneud unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg. Pwyswn arnoch i gynnwys cymalau yn y Bil sy'n nodi gofynion penodol mewn perthynas â'r Gymraeg, neu'n cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol arall. Mi ellid cyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i weld sut yr ymdriniwyd â'r mater yno.

O brofiad, gwyddom fod aros yn fud ar y mater hwn, gan gymryd yn ganiataol fod deddfwriaeth arall (e.e. Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) yn gwneud yr hyn sydd ei angen, yn arwain at broblemau o ran sicrwydd gwasanaethau. Rhaid bod yn gwbl 'explicit' am y disgwyliadau, a gellid cyfeirio at y Safonau ble mae'r rheiny'n berthnasol, ond yn sicr mi fydd meysydd y mae'r Strategaeth Awtistiaeth yn cyfeirio atynt ble na fydd y Safonau'n berthnasol neu'n ddigon cryf, ac mae cyfle yn y Bil i osod y safon yn uwch er budd unigolion ar y sbectrwm awtistiaeth.

## A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y Bil drafft?

Mi fydd yn hollbwysig i blant a phobl ifanc ar y sbectrwm awtistiaeth fod darpariaethau'r Bil arfaethedig hwn yn cyd-fynd â darpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru); mi fydd hynny'n greiddiol o safbwynt y sawl sy'n ceisio gweithredu darpariaethau'r Biliau yn ogystal, er enghraifft Cydlynwyr Anghenion Dysgu Arbennig mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.